£7.6miliwn wedi'i ddyfarnu i amgueddfeydd unigryw

Dysgu yn The Leach Pottery. Credyd: © Ellen Love.

O grysau pêl-droed eiconig i helmed deifio dyfnfor gyntaf y byd, rydym yn cefnogi prosiectau i rannu gwrthrychau hanesyddol prin gyda'r cyhoedd.

Yn ein rownd ariannu ddiweddaraf, rydym wedi buddsoddi mewn chwe amgueddfa sy'n arddangos treftadaeth amrywiol y DU drwy gasgliadau unigryw. Bydd arddangosfeydd newydd yn adrodd storïau pêl-droed, criced, deifio, crochenwaith a mwy, tra bydd llawer o'r arteffactau'n cael eu harddangos yn gyhoeddus am y tro cyntaf.

> Mae ein buddsoddiad diweddaraf mewn amgueddfeydd yn dangos amrywiaeth a disgleirdeb anhygoel ein hamgueddfeydd
> *Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*



Siwtiau Newt a Jim: dwy siwt ddeifio un atmosffer. Credyd: © Kevin Casey.

Amgueddfeydd i bawb

Mae'r prosiectau rydym wedi dyfarnu cyfanswm o £7.6m iddynt yn cynnwys:

Amgueddfa Dau Hanner (y dyfarnwyd £2.7m iddi) a fydd yn cyfuno Amgueddfa leol Wrecsam ag Amgueddfa Bêl-droed newydd i Gymru, gan ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd yn nhreftadaeth chwaraeon y dref. Ymhlith y gwrthrychau eiconig sydd i'w harddangos fydd crys cyntaf John Charles a chap a ddyfarnwyd i Billy Meredith.

The Diving Museum (y dyfarnwyd £802,604 iddi) yn Gosport a fydd yn paru adnewyddu'r fagnelfa Fictoraidd restredig Gradd II* â dehongliad newydd i arddangos hanes man geni'r diwydiant deifio dyfnfor byd-eang.

The Leach Pottery Museum (y dyfarnwyd £3.4m iddi) yn St. Ives sy'n sefydlu canolfan ddysgu a chynhyrchu newydd. Bydd y gofod newydd yn anrhydeddu etifeddiaeth y crochenydd byd-enwog Bernard Leach ac yn helpu cymunedau lleol i ddarganfod dulliau crochenwaith traddodiadol.

The Museum of Aberdeenshire (y dyfarnwyd £309,409 iddi) sy'n cael ei hariannu i ddatblygu cynlluniau i drawsnewid T? Arbuthnot hanesyddol yn amgueddfa newydd i fod yn gartref i arteffactau gan gynnwys y Deskford Carnyx, trwmped Celtaidd cynnar prin.

Mae arian datblygu'n cefnogi **The Egypt Exploration Centre** (y dyfarnwyd £61,321 iddi) i fireinio cynlluniau ar gyfer adnewyddu eu hadeilad yn Camden. Bydd y gwaith adnewyddu'n caniatáu i'r Oxyrhynchus Papyri o bwys rhyngwladol gael ei arddangos am y tro cyntaf.

Bydd **Lancashire Cricket Heritage Experience** (y dyfarnwyd £176,650 iddo) yn datblygu cynlluniau i ddod â hyb treftadaeth rhyngweithiol i faes criced Emirates Old Trafford. Bydd yr amgueddfa'n cynnwys technoleg drochi,

arddar

Crys gêm gyntaf John Charles ar gyfer Cymru v Iwerddon 1950. Credyd: Amgueddfa Wrecsam.

Ysbrydoli darganfod

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “O Swydd Aberdeen i Gernyw, mae ein buddsoddiad diweddaraf mewn amgueddfeydd yn dangos amrywiaeth a disgleirdeb anhygoel ein hamgueddfeydd, gyda chasgliadau o arwyddocâd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

"Bydd y prosiectau hyn yn ysbrydoli ymwelwyr o bob oedran, gyda llawer o’r casgliadau hyn yn cael eu datgelu am y tro cyntaf, a byddant oll yn cysylltu pobl â storïau unigol chwaraeon, deifio, crochenwaith, archaeoleg a llawer mwy, gan greu stori genedlaethol sy’n cwmpasu'r mathau niferus ac amrywiol o dreftadaeth sydd gennym i’w cynnig.

“Bydd ein buddsoddiad yng ngwead treftadaeth ddiwylliannol yr amgueddfeydd hyn yn ysbrydoli pobl, yn cysylltu cymunedau ac yn sbarduno twf, gan alluogi pawb i ddarganfod y dreftadaeth leol anhygoel mewn trefi ar draws y DU a chefnogi ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol, ac mae'r amgueddfeydd hyn yn dangos yr angerdd a'r amrywiaeth ohoni. Felly, waeth beth fydd y tywydd yr haf yma, mae yna bob amser amgueddfa neu le treftadaeth gwych ar agor i’w ddarganfod, ei archwilio a’i fwynhau."

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym wedi dyfarnu £2.4biliwn i fwy na 5,900 o brosiectau seiliedig ar amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a chasgliadau ar draws y DU dros y 30 mlynedd diwethaf.

Ariannu amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau

Rydym yn ariannu prosiectau seiliedig ar gasgliadau sy'n helpu cadw a dathlu treftadaeth pobl, lleoedd a'r hyn yr ydym yn angerddol drosto. Mynnwch ysbrydoliaeth drwy bori rhai o'r prosiectau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau eraill rydym wedi'u cefnogi.

efyd mewn ...

Mae'r amgueddfa wedi'i hadnewyddu yn dwyn ynghyd dreftadaeth chwaraeon a hanes cymunedol. Credyd: Amgueddfa Bêl-droed Cymru ac Amgueddfa Wrecsam, 2026.

r pêl-droed a chymuned

Liverpool Record Office.

Partnership unlocking the UK’s archives awarded £5million